Cam 1

Gwneir cais am asesiad statudol

- Gall athro/athrawes, gweithiwr proffesiynol, awdurdod lleol neu riant ofyn am asesiad.
- Ystyr Asesiad Statudol yw asesiad ffurfiol o Anghenion Dysgu Ychwanegol eich plentyn.
- Yn dilyn asesiad, bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a ddylid rhoi Datganiad o Anghenion Dysgu Ychwanegol i'ch plentyn.
- Defnyddir y term rhoi Datganiad yn aml i ddisgrifio'r broses hon.
- Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddilyn amserlen benodedig ar gyfer llunio datganiad, a dylid cwblhau'r gwaith hwnnw o fewn 26 wythnos.

Mae'r AALl yn penderfynu a ddylid cynnal asesiad ai peidio

- Wedi i'r awdurdod lleol dderbyn cais ysgrifenedig mae ganddynt chwe wythnos i benderfynu a fyddant yn cynnal yr asesiad
- Bydd yr awdurdod lleol yn gweithredu ar y cais am asesiad onid ydynt eisoes wedi asesu'r plentyn o fewn y chwe mis blaenorol, neu os ydynt yn sicr nad oes angen asesiad ar y plentyn.
- Byddant yn ysgrifennu at y teulu i roi gwybod iddynt sut y gwneir penderfyniad, sut mae'r asesiad yn cael ei gynnal a sut y gallant gyfrannu at y broses.

Mae'r AALl yn penderfynu cynnal asesiad

Ewch i Gam 2

Mae'r AALl yn penderfynu peidio cynnal asesiad

Ewch i Gam 3 – yn y cam hwn mae gennych chi a/neu eich plentyn yr hawl i apelio (trowch i dudalen 6); bydd y Gweithiwr Cymorth Teuluol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gallu eich cynghori ar hyn.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch y wybodaeth hon cysylltwch â'r canlynol:
Gweithwyr Cymorth i Deuluoedd – Anghenion Dysgu Ychwanegol

Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin; Rhif ffôn: 01267 246466
e-bost: ALNsupport@sirgar.gov.uk